
# "Dychmygwch…"

## Ein gweledigaeth ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru



Cyngor Celfyddydau Cymru
Medi 2009

Rabab Ghazoul - *Can't Keep Up With Keeping You Down* (llun: David Winwood)

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

Supported by
The National Lottery®
Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol

Cyngor Celfyddydau Cymru
E-bost: gwybodaeth@celfcymru.org.uk
**www.celfcymru.org.uk**

4-6 Gardd Llydaw, Lôn Jackson, Caerfyrddin SA31 1QD
Ffôn: 01267 234248  Minicom: 01267 223496
Ffacs: 01267 233084

Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL
Ffôn: 0845 8734 900  Minicom: 029 2045 1023
Ffacs: 029 2044 1400

36 Rhodfa'r Tywysog, Bae Colwyn LL29 8LA
Ffôn: 01492 533440  Minicom: 01492 532288
Ffacs: 01492 533677

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i drefnu bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, braille ac ar gasét sain a bydd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg ar gais.

YN GADARN O BLAID • POBL ANABL

# Dychmygwch...

Dychmygwch Gymru. Ac wedi gwneud hynny - ei gweld hi, ei chlywed, ei mwynhau, darllen amdani, morio ynddi - rhowch gynnig ar feddwl am ein gwlad heb gân, heb y gair llafar ar y llwyfan na'r sgrin, heb na barddoniaeth na nofelau, na dawns na cherfluniau na cherameg na lluniau na delweddau, na'r holl draddodiadau byw sy'n tebol i wneud ein diwylliant cyfoes mor egnïol. Y ffaith foel amdani ydi, yn ogystal ag yn ein dychymyg, nad oes yna ddim Cymru ddynol heb Gelfyddyd, a'r un fath yn union heb Greadigedd does dim Treftadaeth i'w throsglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r llall.

Felly meddyliwch am beth sy'n gwneud y celfyddydau'n arbennig i chi. Cofiwch y munudau gwefreiddiol hynny o wynfyd, llawenydd, syndod – yr ennyd fer honno sydd mor hudol a chynhyrfiol ac sydd, efallai'n ddiarwybod i chi, wedi'i phlannu ym mhwll eich cof am oes. Mae'r effaith yn ddihafal. Dyna pam mae'r celfyddydau o bwys, a pham yn ein tyb ni y mae'n werth ymladd drostyn nhw.

Rydym yn uchelgeisiol dros y celfyddydau yng Nghymru. Ein gweledigaeth ni ydi Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau wrth wraidd bywyd y genedl, lle mae ein doniau gorau yn y golwg, yn cael eu meithrin a'u rhannu. Felly mae ein gweledigaeth ni'n edrych tua'r dyfodol sef beth allai'r celfyddydau fod yng Nghymru. Uchelgais creadigol piau hi, posibiliadau pobol. Nid y manylion piau hi – mae yna ddigon o'r rheini fan arall. Yn hytrach rydym yn tremio ymhell, yn edrych tuag at lle gallem fod ymhen deng mlynedd neu fwy.

Ond fydd yna ddim Cymru i'w dychmygu o'r newydd yfory os na chefnogwn ni'r Celfyddydau'n iawn ar unwaith. Credwn y dylai'r celfyddydau fod yn un o flaenoriaethau diamod Senedd a Llywodraeth Cymru. Ac yn yr oes anodd sydd ohoni, dylid chwyddo'r swm cymharol fach a neilltuir i'r Celfyddydau ar hyn o bryd, nid er gwaetha'r ysgytio economaidd presennol ond yn union o'i herwydd.

Sut mae tacio gyda'r gwynt yn hytrach nag yn ei erbyn ydi'r ffordd i lywio'r llwybr o'n blaenau. Felly symudwn ymlaen yn hyderus ac yn argyhoeddedig. Soniwn am y pethau'r ydym yn credu ynddyn nhw a'r pethau mae arnom eisiau'u gwneud. Soniwn am bwyslais a chywair, am flaenoriaethau a nodau wedi'u diffinio'n fras. Gwnawn hynny mewn ffyrdd a fydd, gobeithio, yn groesawgar ac yn dwyn pobol i mewn, yn denu'n nes y rheini a allai rannu, cefnogi ac yn wir helpu i rannu ein gweledigaeth. Oherwydd os gwnawn ni hynny, dychmygwch am eiliad beth y gellid ei wneud. Dychmygwch am eiliad y Gymru y gallem wedyn, â mymryn o wroldeb, fynd ati i'w chreu.

## Chi, ni ynteu nhw?

Pwy ydi'r "ni" rydym yn sôn amdanyn nhw byth a hefyd?

Dyma weledigaeth y Cyngor. Ond carem feddwl mai'r "ni" ydi pawb yng Nghymru a chanddyn nhw awch am y celfyddydau: artistiaid, cyrff, cynulleidfaoedd, noddwyr, y llywodraeth (leol a chenedlaethol), a Chyngor y Celfyddydau ei hun.

Mae'r datganiad hwn o'n gweledigaeth yn cyd-daro – yn fwriadol – â'n Hadolygiad Buddsoddi. Yr Adolygiad Buddsoddi ydi'r archwiliad mwyaf pellgyrhaeddol o'r celfyddydau a gyllidir yn gyhoeddus y mae Cyngor y Celfyddydau wedi'i wneud mewn blynyddoedd diweddar. Mae angen i ni gyrraedd pen y broses a chennym 'bortffolio' o gyrff sy'n artistig fywiog, yn ariannol gadarn, a chanddyn nhw ddigon o fuddsoddiad ariannol i'w galluogi nhw i ffynnu. Dyma'r cyrff fydd wrth wraidd strategaeth Cyngor y Celfyddydau yn y dyfodol i ddatblygu'r celfyddydau yng Nghymru.

Felly er bod ein gweledigaeth i raddau'n ddiderfyn, bydd lle dewiswn ni fuddsoddi yn fwy dethol.

Dewis piau hi. Wnawn ni ddim tynnu'n gyrbibion yn ddihidans y pethau sy'n gweithio ac y gwyddom eu bod o werth. Ond os bydd angen rydym yn barod i ddod i benderfyniadau cyllido beiddgar a hyd yn oed amhoblogaidd i gefnogi beth rydym yn credu ynddo.

## Yn benderfynol o fod yn well

Datblygu ydi ein pethau ni. Mae'r celfyddydau'n newid ac yn tyfu – rhaid i'n cyllido fod yn ddrych o hynny. Felly yn niffyg dim byd arall rhaid i'n gweledigaeth roi'r arwydd ein bod yn disgwyl i ddyfodol y celfyddydau yn ein gwlad fod i'w weld a'i deimlo'n wahanol iawn. Ac o ddweud gwahanol, gwell sydd gennym mewn golwg.

'Gwella' ydi'r *lingua franca* newydd. Ar hyd ac ar led pob maes bywyd gwleidyddol a bro yng Nghymru mae pobol yn benderfynol o fod yn well, o wneud yn well – ac o wneud hynny i gyd yn rhatach. Hen stori? Dydi hynny ddim yn golygu nad ydi'n iawn, nac na chawn drafferth dwyn y maen i'r wal. Mae gofyn i ni i gyd chwarae ein rhan, gwneud ein gorau glas. Ydym ni'n ddigon da? Sut y gallwn ni ragori? Beth ddyg berswâd ar y llywodraeth i weld y celfyddydau'n flaenoriaeth pan fo cynifer o achosion eraill yn gweiddi am sylw? Allwn ni mewn gwirionedd fforddio peidio â bod yn well?

Does gennym ddim diddordeb yn y diflas na'r diddrwg-didda. Beth a dalai hynny?

Dydyn ni ddim yn disgwyl i bob artist a gyllidwn ni fod cystal â chynhyrchu gwaith athrylithgar. Ond gobeithio y bydd yr artist yn gwneud mwy na dim ond ymdrybaeddu mewn hunanfynegiant braf. Disgwyliwn i'n hartistiaid fireinio'r mynegiant hwnnw drwy grefft,

dychymyg, amynedd ac ymroddiad, yn gaffaeliad i ni chwilio'r rhannau gorau a dyfnaf ohonom ein hunain.

Mae gan bawb ei farn ar beth sydd, ac sydd heb fod, yn gelfyddyd 'dda'.

Gwyddom hefyd ein bod yn amgyffred ansawdd yn oddrychol, dan ddylanwad ein profiad, ein gwybodaeth a beth sydd at ein dant. Yn niffyg gwirioneddau mawr parod, yn aml mae'n haws dweud "Mae'n well gen i hwn na nacw" yn hytrach na diffinio 'ansawdd' neu 'ragoriaeth'. Yn y pen draw, nid yn unig rydym yn amgyffred y 'gorau' yn oddrychol, rydym yn ei amgyffred hefyd yn gymharol.

Ac eto...

Rhaid i ni beidio gan hynny â rhoi'r gorau i geisio deall fymryn yn well y nodweddion hynny yn y celfyddydau sy'n effeithio arnom ac yn ein cyffwrdd ym mhwll y galon. Wedi'r cyfan, Celfyddyd sy'n deillio o angerdd a dychymyg, Celfyddyd wedi'i saernïo a'i chynhyrchu'n grefftus, ac sy'n estyn atom ac yn ein cyffwrdd - dacw Gelfyddyd go iawn, ar ei phen ei hun ac o bwys. Unwaith y teimlir yr eiliad iasol honno, byth nid â dros gof. Mae ansawdd o bwys, bob amser, ac ym mhob ffordd.

## Bywyd llai cyffredin...

Fel sydd hysbys meddai Raymond Williams ym 1958 "Mae Diwylliant yn Gyffredin" ac meddai wedyn ar ei union "a dyna lle mae gofyn i ni gychwyn." Mae ei fwriad yn dal i fod heb ei fai: nad oes yna ddim byd dirgel na dethol mewn angen cymdeithas gyfan i rannu a chymryd rhan mewn gorchestion diwylliannol. Yr un mor wir, mae cymdeithasau sy'n mynd yn eu blaenau yn hytrach na gwywo ar y gangen ymhen yr hir a'r hwyr yn ailhadu, yn ailgyfeirio ac yn tyfu o'r newydd trwy eu celfyddydau i gyd.

Fel sefydliad cyhoeddus rydym yn aml yn wynebu'r feirniadaeth ein bod yn gwyro'n rhy bell tuag at geidwadaeth hen-ffasiwn ar y naill law a chofleidio'r 'newydd' yn fyrbwyll ar y llall. Mae'r gwirionedd yn fwy cynnil.

Mae hi bron bob amser yn haws edrych yn ôl nag edrych ymlaen. Ond gallem fod yn hiraethus fel malwod mewn triog yn ein treftadaeth ddiwylliannol os na chofiwn, bob amser, fod ei gwir werth yn deillio o'r creadigedd a'i gwnaeth o'r newydd.

Ers cyn cof mae artistiaid yn adlewyrchu, yn amau ac yn llunio'r ffordd y mae diwylliant a chymdeithas yn datblygu. Yn eu dydd roedd y traddodiadau sydd bellach yn gonglfeini ein treftadaeth ddiwylliannol yn newydd ac yn her. Mae i lawer o'r gwaith hwn berthnasedd sy'n atseinio heddiw. Ond mae i waith sy'n perthyn i'w oes uniongyrchedd neilltuol. Felly rhaid i'r cyfoes, y byw a'r peryglus o ddarfodedig fod yn brif ysgogwyr ein gweledigaeth ar gyfer y celfyddydau.

Felly yn ei dda bryd fydd arnom ni ddim ofn ei mentro hi rywfaint. A byddwn yn disgwyl i'r rheini rydym yn buddsoddi ynddyn nhw wneud yr un fath – nid rywsut-rywsut nac yn anghyfrifol, ond yn bwrpasol ac yn hyderus, o gwmpas ein pethau o ran ein greddfau, ein gwybodaeth a'n deheurwydd gorau. Ar hynny y mae ein gweledigaeth am a ddaw yn dibynnu. Oherwydd os gwthiwn ni'r tu hwnt i'r fan sy'n braf, yn wrol ac yn chwilfrydig, fe ddichon yn wir y gallem ddwyn i'r amlwg Gelfyddyd sy'n wahanol, yn hergar, ac efallai'n fwy diddorol.

## Adnabod y byd rydym yn byw ynddo...

Chwedl yr hen bennill, "llawn yw'r byd o ryfeddodau".  Ond serch holl ffair a ffwndwr symud i'r unfed ganrif ar hugain, faint wyddom ni go iawn am y bobol a'r diwylliannau o'n cwmpas? Ydym ni'n gwerthfawrogi harddwch a gosgeiddrwydd diwylliannau eraill, y doethineb a'r mynegiant hynny sy'n newydd neu'n anghyfarwydd, neu sydd flewyn y tu allan i'n hamgyffred ni?

Mae'r celfyddydau'n gaffaeliad i ni ddeall gwahaniaeth. Ond maen nhw hefyd yn gaffaeliad i ni chwilio a rhoi llafar i'n dynoliaeth ar y cyd, ein lle yn y byd. Maen nhw hefyd yn gaffaeliad i ni gyfleu beth sy'n arbennig ac yn hynod, ond hefyd beth sy'n ein huno a'n clymu wrth ein gilydd.

Mae Cymru'n newid, yn newid yn gyflym. Mae ein prif drefi a dinasoedd yn cyflym dyfu, ond felly hefyd y peryg y bydd ein broydd cefn gwlad yn cael eu hynysu neu eu datgysylltu oddi wrth ganolfannau trefol y ddarpariaeth ddiwylliannol. Mae ein poblogaeth yn heneiddio. Ac fel y mae pobol yn byw'n hŷn bydd eu diddordebau, eu hiechyd a'u henillion yn effeithio ar sut y maen nhw'n cael blas ar y celfyddydau ac yn cymryd rhan ynddyn nhw.

Mae gan gymdeithas hael, deg ei bryd a goddefgar feddwl mawr o greadigedd ei dinasyddion i gyd, a pharch ato.

Cymdeithas ydi hi sy'n cofleidio cydraddoldeb ac yn mawrygu gwahaniaeth lle bynnag y'i ceir, mewn hil, rhywedd, rhywioldeb, oed neu anabledd. Mae yna gymaint all gyfoethogi ac ehangu ein diwylliant.

Yr artist anabl, er enghraifft - mae'r profiad y mae wedi'i fyw o ymateb cymdeithas i'r anabledd hwnnw yn gallu rhoi dirnadaeth ddihafal, bur annifyr weithiau sy'n artistig ac yn ddiwylliannol arwyddocaol; mae llais aflafar ond huawdl y bardd dŷb yn llefaru am wahanol wirioneddau ac yn ein gorfodi ni i edrych o'r newydd ar y byd drwy lygaid gwahanol.

Bron yn anochel, efallai, mae cyllido cyhoeddus yn ddrych o batrymau beth a fu, yn hytrach na beth a ddylai fod. Mewn amgylchfyd cyllido bregus, efallai fod cryfder sefydliadau sydd eisoes yn bod fel petai'n rhwystr. Er gwaetha'r creadigedd a'r egni sy'n bod, ychydig iawn o gyrff yn y celfyddydau y mae Cyngor y Celfyddydau wedi llwyddo i'w cyllido â refeniw sydd â'u gwraidd yng nghymunedau du a lleiafrifol ethnig Cymru.

Efallai mai'r patrymau cymorth ariannol eu hunain sydd o'i le. Am ba reswm bynnag, mae gofyn i ni unioni'r cam: trwy wrando, sgwrsio, a thrafod y camau y mae gofyn i ni'u cymryd - a'r buddsoddiad mae'n rhaid i ni'i wneud - i gychwyn newid gwirioneddol, durol.

Ein gweledigaeth ni, felly, ydi dyfodol lle mae'n strategaeth gyllido ni'n ddrych o wirioneddau diwylliannol Cymru'r unfed ganrif ar hugain. Ac er mwyn i ni greu diwylliant a chanddo feddwl o wahaniaeth ac amrywiaeth, mae gofyn i ni danlinellu'r ffaith mai ticio bocsys a thalu gwasanaeth gwefusau ydi'r gelynion – gonestrwydd, ar y cyd a goddefgarwch a dyhead dichonadwy, ydi ein cynghreiriaid.

## Ein hiaith, ein llais

Un o'r ffyrdd amlwg rydym yn ein mynegi'n hunain ydi trwy'r geiriau a'r iaith a ddefnyddiwn.

Cenedl ddwyieithog ydym - yn gyfreithiol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, ac fel unigolion a chymunedau. Yr iaith Gymraeg yn anad dim sy'n gwneud Cymru'n arbennig. Mae'r iaith yn cynnig moddion deall a mwynhau cyfoeth rhyfeddol o lenyddiaeth a diwylliant. Mae'r Celfyddydau'n ffynnu ar hyn ac maen nhw'n gydran allweddol o barhad rôl hanfodol y Gymraeg yng nghalon bywyd Cymru.

Ond mae gofyn i ni hefyd amddiffyn nerth deng ewin hawl pobol i chwilio eu diwylliant eu hunain, eu creadigedd eu hunain trwy eu dewis iaith, pa un ai fel defnyddiwr, cyfrannwr neu artist.

Mewn byd mwyfwy cyfun gwelwn y Gymraeg, ochr yn ochr â'r Saesneg, yn nodwedd bro sylfaenol o gystal ag yn ddiwylliant a etifeddwyd. Er mwyn ffynnu a thyfu bydd rhaid i'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg eu hunain gynnig yr un faint o arbrofi ac ymateb i dueddiadau byd-eang â'i chyfnither o Saesnes. Mae egni a gwreiddioldeb y celfyddydau yng Nghymru'n dibynnu ar ffrwd ffres syniadau newydd - meddwl newydd y synnir amdano, a ddatblygir ac a rannir trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ein gweledigaeth yn cofleidio'r ffaith bod y Gymru ddwyieithog yn ynysfor o wahaniaethau. Rydym ni'n sawl 'Cymru', yn ddiwylliannol, yn ddaearyddol, yn economaidd ac yn ieithyddol. Nid o hapiau prin golwg tir y mae undod at ei gilydd yn deillio, ond o'r llif cysylltiadau sy'n llunio tirwedd y genedl o'r naill genhedlaeth i'r llall.

Os gall Celfyddyd ddal hyn yn anad yr un gweithgaredd dynol arall, meddu ar y Gymraeg a'i hymestyn ydi allwedd datgloi'r ystyr ar y cyd. Mae gofyn i ni ddatblygu strategaeth fwy beiddgar ar gyfer yr agwedd ddihafal yma ar ein bywyd diwylliannol, a chwilio gyda'r Llywodraeth a Bwrdd yr Iaith sut y gall hyn weithio i gysylltu'r sawl 'Cymru' sy'n bod mewn gwirionedd.

# Yr artist bob tro

Mae ein Hadolygiad Buddsoddi gan fwyaf yn ymwneud â chyrff yn hytrach nag artistiaid. Ond arhoswch am eiliad i ofyn y cwestiynau perthnasol: pwy sy'n sgrifennu'r gerdd, yn cyfansoddi'r gerddoriaeth, yn actio'r ddrama, yn cyfarwyddo'r opera, yn canu'r gân, yn dawnsio'r llinell, yn breuddwydio'r nofel, yn braslunio'r llun, yn llunio'r potyn, yn cynllunio'r ddinas?

Artistiaid nid sefydliadau sy'n creu celfyddyd.

Yr artist, yn mynd i'r afael â'r byd yn ei obeithion a'i drychinebau, ei newidiadau a'i aflonyddwch, sy'n ailddyfeisio mynegiant diwylliannol priodol i'r oes.
Mae'r artist ifanc heddiw, er enghraifft, yn debygol o fod yr un mor gyfforddus yn gweithio ar draws amrywiaeth eang o ddisgyblaethau creadigol, yn symud yn ddi-dor rhwng y noddedig a'r masnachol, yn mynd i'r afael ag achosion cyfoes sydd y tu hwnt i derfynau traddodiadol y celfyddydau: gwyddoniaeth, technoleg, iechyd, ecoleg – achosion taer, anodd ein hoes. Bydd ar lawer o'r artistiaid hyn eisiau gweithio mewn ffodd ryngddisgyblaethol, yn gosod eu gwaith oddi mewn i gyd-destun ehangach y diwylliannau creadigol. Nhw yn aml fydd y torrwyr tir newydd, yr arloeswyr, yr entrepreneurs newydd fydd yn creu swyddi a buddsoddi ar gyfer eraill.

Yn y gorffennol, weithiau roedd ein hymglymiad uniongyrchol ag artistiaid unigol i'w weld yn rhy bleidiol, wedi'i gyfyngu i'r rheini nad oedd dim modd eu hanwybyddu, naill ai oherwydd ansawdd diamau eu gwaith neu heb flewyn ar dafod oherwydd eu dyfalbarhad. Fodd bynnag, gellid maddau i'r artistiaid sydd heb fod yn y naill gategori na'r llall am deimlo eu bod wedi'u hesgeuluso neu'u gwerthfawrogi rhy ychydig.

Mae ein gweledigaeth am a ddaw yn rhoi'r artist ar y blaen.

Pa un ai yng nghôl gysurlon corff arall neu ar ei ben ei hun yn y stiwdio, yr artist unigol ydi prif ysgogwr creu artistig ym mhobman.
Felly mae arnom eisiau gweld mwy o gyfleoedd i'r artist gael yr amser, y lle a'r adnoddau i ddatblygu ei waith. A chyda threigl amser, cyfeiriwn fwy o gyllid tuag at artistiaid, y weithred o greu a'r partneriaethau sy'n gwneud gwaith newydd yn bosib.

# Amser i chwarae...

O flynyddoedd bore oes rydym yn dysgu trwy chwarae. A ninnau'n cefnu ar betheuach plentyndod, cawn bethau newydd i gymryd eu lle – teganau a deunyddiau mwy soffistigedig, rheolau cymhlethach. A hyd yn oed os nad oes arnom eisiau gwneud pethau'n hunain, mae gwylio pobol eraill yn eu gwneud yn ein cyfareddu, neu cawn flas ar beth maen nhw wedi'i wneud.

Chwarae ydi camau cyntaf gweithgaredd creadigol ac artistig. Taith ydi hon all weddnewid y ffordd y mae plant a phobol ifanc yn dysgu ac yn chwilio'r byd o'u cwmpas. Mae'n gallu newid

y ffordd maen nhw'n eu gweld eu hunain – hyd yn oed eu breuddwydion am a ddaw – yn ogystal â'u helpu nhw i ddatblygu medrau bywyd ar gyfer y dyfodol.

Mae'r celfyddydau'n gallu meithrin cyneddfau rhywun ifanc i holi a gwneud cysylltiadau, i fagu medru meddwl yn annibynnol ac yn feirniadol. Maen nhw'n gallu ysbrydoli pobol ifanc ag uchelgais a hyder newydd, gan herio diffyg dyhead a thorri'r cylch amddifadiad a achosir gan gyrhaeddiad addysg sâl. Gall hyn fod yn allwedd datgloi'r drws i addysg bellach ac uwch ac yn ei dro, gwaith.

Ond rhaid i ni ddechrau o'r dechrau.

Rydym yn cefnogi â'n holl galon fenter bwysig Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu addysg cyfnod sylfaen. Mae gan y polisi gwirioneddol wahanol yma botensial i chwyldroi'r ffordd y mae ein plant lleiaf yn dysgu trwy chwarae. Mae'n gyrchddull radical, ond yn un sy'n cyd-fynd i'r dim â'r celfyddydau. Rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan yn gwneud ysgolion sylfaen yn llwyddiant.

Rhaid i ni hefyd ddilyn drwodd.

Gwyddom fod plant fel y prifian nhw yn dewis drostyn nhw'u hunain sut ac ym mha ffyrdd y maen nhw'n ymhél â'r celfyddydau. Dyma'r foment pan all popeth newid. Gwyddom o brofiad fod pobol ifanc rhwng naw a 14 oed yn gweld llai o'r celfyddydau yn yr ysgol. Felly, a hwythau'n dechrau chwilio eu diddordebau'u hunain, eu creadigedd eu hunain, eu dawn eu hunain, mae'n bwysicach fyth fod ganddyn nhw'r cyfleoedd iawn i brofi celfyddydau o safon uchel mewn cynifer o ffyrdd ag y bo modd.

Ein gweledigaeth ni, felly, ydi dyfodol lle mae addysg o safon uchel yn y celfyddydau yn rhywbeth pob dydd yn ein hysgolion a'n colegau. Rhywbeth nodweddiadol, nid eithriadol, fyddai gweld artistiaid a chyrff yn y celfyddydau'n gweithio mewn ysgolion. Bydd y radicaliaeth sy'n gweddnewid dysgu i'r plantos yn dal i fynd, mewn cadwyn ddi-dor, trwy gydol gyrfa'r plentyn hwnnw yn yr ysgol. Ysgolion fydd calon gymhellol eu cymunedau, yn dwyn pobol i mewn, yn cael eu cydnabod ac yn 'cael y clod' am ansawdd eu haddysg greadigol.

O'r braidd y mae hwn y llun a adwaenwn heddiw. Felly credwn – gyda'n partneriaid mewn llywodraeth genedlaethol a lleol – ei bod yn werth chweil bwrw golwg fanwl a gofalus ar iechyd y celfyddydau yn ein hysgolion, archwilio sut mae pobol ifanc yn profi'r celfyddydau mewn addysg ffurfiol a'r tu allan iddi. Mae gofyn i ni ddysgu gan beth sydd yn digwydd yn dda, a datblygu ffyrdd call, ymarferol o ledaenu'r wybodaeth yma'n ehangach ar draws ein hysgolion.

## Mwy na dim ond "Ffactor X"…

Dawn - yn y dychymyg, yn ganfyddedig ac ambell waith hyd yn oed yn wirioneddol - dyna sy'n mynd â hi yn yr oes sydd ohoni. Pa un ai'r pwt o ffilm rhy dda i'w golli ar YouTube, neu'r

enwogyn “ylwch chi fi” diweddaraf ar deledu realaeth, mae pawb yn penelinio am ei chwarter awr o enwogrwydd (haeddiannol ai peidio).

Mae gwir ddawn yn anodd ei diffinio, ond yn hawdd ei gweld. At ei gilydd o’i gweld fe’i hadnabyddwch. Ond wedyn y mae’n mynd anodd. Sut mae creu’r amgylchfyd iawn lle gall y gwreichionyn creadigol danio a bywiogi? Weithiau bydd y cyfle i gymryd rhan yn y celfyddydau - mewn theatr, mewn clwb, yn yr ysgol, yn y neuadd eglwys leol, y ganolfan gymunedol – yn ddigon i fegino’r fflam. Ond bydd yna’r rheini o hyd sydd eisiau mynd ymhellach, cloddio’n ddyfnach.

Felly mae arnom ni eisiau gweld rhoi mwy o sylw i bobol ifanc yn dysgu trwy’r profiad o wneud, wedi’u hysbrydoli gan y cyfle i weithio ochr yn ochr â’n hartistiaid proffesiynol a’n cyrff yn y celfyddydau. Mae arnom eisiau i <u>bob</u> person ifanc yng Nghymru gredu bod y cyfle yno iddyn nhw fod y gorau y gallan nhw fod – neu y mynnan nhw fod – yn perfformio gyda’u cymheiriaid ar y lefel uchaf, yn rhoi stondin i’w doniau i bobol Cymru a thramor.

Er mwyn i ni lwyddo, mae gofyn i ni fynd i’r afael yn well â rhoi’r celfyddydau lle gallan nhw wneud gwahaniaeth go iawn. Mae hyn yn golygu rhoi pob gewyn ar waith i estyn llaw tuag at y bobol ifanc hynny sydd, am ba reswm bynnag, yn wynebu rhwystrau economaidd neu gymdeithasol. Dydi hi ddim yn deg bod cyfleoedd i ddysgu neu hyfforddi trwy’r celfyddydau wedi’u taenu mor anghyfartal ac anghyson ar draws Cymru. Ddylai cyfle addysgol fyth ddibynnu ar gefndir teulu rhywun ifanc nac ar ble mae’n byw.

Rydym wedi cychwyn arni’n galonogol. Mae llawer o’r cyrff yn y celfyddydau rydym yn eu cyllido ar hyn o bryd yn gweithio’n brysur mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ar hyd a lled rhai o’r cymunedau mwyaf amddifad a difreintiedig yng Nghymru. Ond crafu’r wyneb ydi hyn. Mae gofyn i ni feddwl yn galetach, cyrraedd yn ddyfnach.

Beth am y bobol ifanc hynny sydd wedi’u dadrithio ac wedi cefnu ar yr adeiladweithiau gwladol ffurfiol sydd yn ôl y dyb yno i’w helpu nhw? Allwn ni ddim gadael iddyn nhw lithro trwy’r rhwyd. Felly o dan faner y rhaglen dan nawdd Ewrop Cyrraedd y Nod byddwn yn chwilio ffyrdd newydd o gynnig help llaw i bobol ifanc ddifreintiedig, a’u symbylu nhw i gael pen y ffordd yn ôl i addysg a hyfforddiant. Credwn y daw hyn yn rhan bwysicach fyth o’n gwaith.

Ond beth wedyn?

Er gwaetha’r ffaith bod y celfyddydau a’r diwydiannau diwylliannol ymhlith y sectorau cyflymaf eu twf yn y Deyrnas Unedig, mae pobol ifanc yn dal i’w chael hi’n anodd cychwyn mewn gwaith proffesiynol. Weithiau defnyddio cysylltiadau personol neu gymryd gwaith gwirfoddol di-dâl ydi’r unig ffordd o gael troed yn y drws.

Ar draws pob rhan o ddiwydiant mae’r cysyniad o brentisiaeth yn dod i’r fei drachefn fel ffordd effeithiol o roi cychwyn arni a dysgu crefft. Mae’n gyrchddull y mae ein cydweithwyr yn Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn ei hybu’n egnïol.

Os bydd iddo weithio, gallai fod yn "ennill, ennill" i bawb – mae ar y celfyddydau angen adfywio sy'n deillio o egni a syniadau newydd, ac mae ar bobol ifanc angen y cyfle i roi eu troed ar y gris nesaf ar ysgol eu gyrfaoedd. Felly ein gweledigaeth ni ydi diwydiant celfyddydau blaengar yng Nghymru, yn ymroddedig i fuddsoddi yn ei sgiliau i ddod - pa un ai artistig neu dechnegol, rheoli neu weinyddu, rydym yn gweithredu'n awr i greu'r genhedlaeth nesaf o artistiaid ac arweinwyr i gadw'r celfyddydau'n fyw ar gyfer y dydd a ddaw.

## Celfyddydau i bawb

Mae gan Gymru dreftadaeth wych o'r creadigedd a noddwyd a'r diwylliant a gyflawnwyd gan ymdrechion cenedlaethau a fu o bobol hynod. Iddyn nhw roedd diwylliant yn gyffredin yn wir.

Ddylem ni ddim gadael i'r hanes diwylliannol hwnnw fod yn fwrn arnom - yn Llyfrgelloedd Gweithwyr, Sefydliadau Glowyr a Neuaddau Pentref oedd yn atseinio gan air a chân ledled cefn gwlad a broydd diwydiannol Cymru. I'r gwrthwyneb. Dylem gymryd ein hysbrydoli gan eu dyheadau yn yr ugeinfed ganrif, ond bod yn benderfynol o gael hyd i'r mathau newydd o ymgysylltu a mynegiant artistig sy'n briodol i'r oes sydd ohoni. Dydi agwedd gwneud dim byd ac aros i weld ddim yn dderbyniol i Gymru sydd angen symud yn ei blaen trwy roi'r ffrwyn i greadigedd caeth cymunedau a defnyddwyr.

I lawer o bobol mae 'gwneud' cyn bwysiced â 'gweld' – mwy felly weithiau.

Mae amaturiaid a gwirfoddolwyr yn gymaint rhan o hanfod diwylliannol Cymru ag ydi ein hartistiaid arobryn a'n cwmnïau cenedlaethol. Mae llawer o'u gweithgaredd heb ei gyllido a chanddo ei adeiladweithiau a'i economi ei hun – i raddau helaeth neb arall ond y rheini sy'n dewis treulio'u hamser hamdden fel hyn sy'n ymorol amdano. At ei gilydd fydd hyn ddim yn un o feysydd blaenoriaethol Cyngor y Celfyddydau, ond mae gofyn i ni fod yn ofalus.

Mewn rhai achosion gall pwyslais llawdrwm ar wahaniaethau diamwys rhwng yr amatur a'r proffesiynol fod yn ddiwylliannol amherthnasol, hyd yn oed yn andwyol i arfer newydd yn y celfyddydau. Mae gofyn i ni gydnabod hefyd mai gwirfoddolwyr ac amaturiaid weithiau ydi sylfaen y gweithgaredd proffesiynol y mae gennym y meddwl mwyaf ohono.

Felly beth ydi lle Cyngor y Celfyddydau?

Er bod y celfyddydau'n rhywbeth y mae pawb yn medru'i 'wneud', nid pawb sy'n gallu'i wneud yn dda. Mae pawb yn gallu bod yn greadigol a dylem amddiffyn i'r carn eu hawl i gymryd rhan yn y celfyddydau ac i gael blas arnyn nhw. Ond dydi hyn ddim yn golygu bod pawb yn artist ddim mwy na'n bod ni'n bwrw bod pawb sy'n gorfforol tebol yn fabolgampwr, na bod pawb sy'n gallu rhoi cymorth cyntaf yn llawfeddyg, na bod pawb sy'n gallu codi padell ffrio yn ben-cogydd. Ansawdd, unwaith eto.

Gallwn ddysgu gan y rheini sy'n rhagori yn y meysydd hyn a'u gwerthfawrogi. Un o'r ffyrdd y gall hyn ddigwydd ydi pobol yn cymryd rhan mewn celfyddydau cymunedol.

Yng Nghymru mae i'r gweithgaredd celfyddydau cymunedol gorau ei anian gref ac arbennig ei hun. I ni, newid, awduraeth a pherchnogaeth piau hi - cynneddf ryfeddol yr artist proffesiynol medrus i weithio ochr yn ochr ag unigolion a chymunedau, cael hyd i'w llais nhw, datgloi gwedd newydd ar brofiad a fuasai fel arall heb na'i defnyddio na'i darganfod. Hyn sy'n mynd â'n bryd ni. Gwaith sy'n ymrymuso ac yn cysylltu - gwaith sy'n ddihafal, yn ddiledryw ac sy'n cadarnhau bywyd, gwaith sydd ar ei orau'n gweddnewid go iawn.

## 'Cenedlaethol' mewn gair a gweithred

Mae Cymru'r unfed ganrif ar hugain ynddi'i hun yn groeseb: hen Wlad yn mynd yn iau. Hynny ydi, mae'r rhan fwyaf o feini prawf hunaniaeth hanesyddol Gymreig, dros y ganrif a aeth heibio, naill ai wedi diflannu neu simsanu ar ymyl y dibyn. Ac eto dros yr un cyfnod gwelwyd creu, datblygu a chynnal sefydliadau sy'n perthyn i gymdeithas Cymru neu sydd ynddi, o'r Amgueddfa Genedlaethol i Undeb Rygbi Cymru i'r Senedd ei hun.

Nid llyffetheiriau rhyw fath o godi ceyrydd gwladol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg mo sefydliadau celfyddydau cenedlaethol yng Nghymru. Nhw ynddyn nhw'u hunain ydi conglfeini cymdeithas wladol, sef yr unig ddyfodol sydd ar gael i Gymru yn lle'r ymddryllio a welwyd mor fynych yn ei hanes yn y gorffennol.

Mae sefydliadau cenedlaethol yn bwysig. Maen nhw o bwys ynddyn nhw'u hunain, ond hefyd oherwydd beth maen nhw'n ei olygu. Efallai ein bod yn gresynu mai felly y mae hi ond i lawer o bobol – yn enwedig y rheini y tu allan i Gymru – bri ein sefydliadau cenedlaethol ydi llathen fesur cryfder a bywiogrwydd celfyddydau ein gwlad.

Braint ydi bod yn 'genedlaethol', nid hawl ragdybiedig.

Mae'n enw y gellir ei herio a chystadlu amdano, gan ddibynnu ar gymeradwyaeth awdurdodau gwladol, gwleidyddol a diwylliannol yr oes. Mae'n dwyn yn ei sgil orfodaeth bod yn batrwm ym mhob ffordd: creu gwaith o bwys cenedlaethol a rhyngwladol; dangos arweiniad yn datblygu'r celfyddydau yng Nghymru; meithrin y partneriaethau a'r berthynas fydd yn magu artistiaid newydd; meithrin cynulleidfaoedd y celfyddydau ddydd a ddaw. Mae hwn yn gyfrifoldeb mawr.

Mae arnom eisiau i'n sefydliadau cenedlaethol gyflawni'r safonau artistig uchaf. Mae arnom eisiau iddyn nhw lwyddo, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae arnom hefyd eisiau iddyn nhw feddwl yn bwyllog am natur eu perthynas hanfodol â Chymru, prif wreiddyn y ddawn gynhenid honno a roddodd fod, mewn rhai achosion, i'r corff ei hun. Mae gallu rhoi llafar i'r berthynas yma, yn gymhellol ac yn symbylol, yn gaffaeliad i ni i gyd fod yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

# Yn nes adref

Rydym yn mynnu sefydliadau diwylliannol cenedlaethol all sefyll ochr yn ochr â'u cymheiriaid yn y Deyrnas Unedig a thrwy'r gwledydd. Ac rydym yn llygad ein lle. Ond mae arnom hefyd eisiau i'r celfyddydau fod ar gael yn nes adref.

Mae gan Gymru rwydwaith rhyfeddol o adeiladau'r celfyddydau. O'r mwyaf i'r lleiaf nhw ydi'r 'cerrig milltir' hollbwysig hynny yn eu broydd, yn cadw'r celfyddydau'n fyw trwy hyd a lled Cymru. Mae cymunedau ar eu hennill o gael mannau creadigol at eu defnydd lle gallan nhw fwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y celfyddydau. Yn amlach na heb mae'r mannau hyn – yn theatrau, canolfannau celfyddydol, neuaddau pentre – wrth wraidd y gymuned.

Dros ddegawdau mae balchder bro, uchelgais artistig, ymwybyddiaeth gymuned i gyd wedi cyfrannu at yr adeiladau celfyddydau sydd wedi codi trwy Gymru benbaladr. Pa un ai adeilad cyngor dinas, neuadd gyngerdd newydd, cymdeithas ddrama amatur a chanddi ei theatr ei hun, neu grŵp cymuned lleol a chanddo'i ganolfan ei hun, mae'r rhan fwyaf o'n hadeiladau celfyddydau'n bod am fod ar bobol eu heisiau nhw ddigon i beri iddyn nhw ddigwydd. Y cwestiwn <u>yn awr</u> ydi a oes arnyn nhw ddigon o'u heisiau nhw i fynd i gost eu <u>cadw</u> nhw'n agored.

Yn reddfol siawns nad "ie" ydi'r ateb, ond bellach at y cyllidwyr cyhoeddus - Cyngor y Celfyddydau, awdurdodau lleol, prifysgolion, y BBC - y mae pobol yn troi. Gallem ymgyrchu dros gyllid ychwanegol, ond allwn ni ddim anwybyddu'r gwirioneddau – mae buddsoddi Cyngor y Celfyddydau wedi'i daenu'n rhy denau. Os awn ni yn ein blaenau a gwneud dim byd, bydd ansawdd ac amrywiaeth y celfyddydau yng Nghymru yn dioddef.

Nid her newydd mo hon. Rydym yn ei hwynebu ers deng mlynedd, gan ddefnyddio ffyrdd mwyfwy dyfeisgar o liniaru'r anawsterau dros dro. A dyna'r drwg. Mae arian ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (Y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd a chyllid Cwmnïau Disglair) wedi cadw pethau ar fynd. A dweud y gwir mae wedi gwneud mwy na hynny, gan gymell arloesi newydd go iawn. Ond mae hefyd wedi mynd â'n sylw ni oddi ar y problemau sylfaenol. Mae rhai yn well eu lle, o leiaf am y tro, ond bu hynny ar draul eraill sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd cadw'u pennau uwchlaw'r dŵr.

Awgrymwyd bod adeiladau'r celfyddydau yng Nghymru yn rhwydwaith prifwythiennol sy'n cynnal 'corff creadigol' Cymru. Mae'n drosiad deniadol. Ond mae'r gwythiennau mawrion yn tewychu a gwaed einioes yn llifo'n llai nerthol os arafa'r prif organau a cholli eu cryfder.

Dyna pam, oddi mewn i'r celfyddydau perfformio, rydym eisoes wedi amlygu rhwydwaith o oedfannau a ddiffiniwn yn rhanbarthol bwysig; ac yn y celfyddydau gweledol rydym wedi dynodi orielau'n flaenoriaethau datblygu. Chafodd y cyrchddull ddim croeso ym mhobman. Ond at ei gilydd teimlwn ei bod yn strategaeth gall, yn anad dim o'i gweld yng nghyd-destun

Strategaeth Ofodol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Felly o leiaf am y pum mlynedd nesaf dyma fydd ein cyrchddull.

Weithiau gwelir adeiladau'n llai pwysig na'r gwaith sydd ar fynd ynddyn nhw. Rhaid i hyn newid.

Mae adeiladau'n gallu bod yn gyfryngau diwylliannol o bwys, i'r artistiaid a'r cyhoedd ill dau. Mae'r gwahaniaethau rhwng cynhyrchydd, curadur, hyrwyddwr ac arddangoswr yn pylu fwyfwy. Mae hyn i'w groesawu.

Mae ein gweledigaeth yn rhagweld cyrchddull sy'n defnyddio'n sylfaen arbenigedd cydnabyddedig sy'n bod, ac sy'n creu 'canolbwyntiau' mewn mannau strategol – rhwydwaith cryf, hyderus o ganolfannau ac adeiladau celfyddydau rhanbarthol bwysig a chanddyn nhw adnoddau cyfatebol.

Byddai gan y cyrff hyn rôl arwain – yn bwysig yn eu rhinwedd eu hunain, ond yn strategol bwysig o ran y rôl ehangach y bydden nhw'n ei chwarae yn datblygu'r celfyddydau. O hyrwyddo rhaglenni amrywiol o weithgaredd proffesiynol o safon uchel, byddai gan y cyrff hyn yr hyblygrwydd i gomisiynu a gofalu am waith newydd, gwneud yn fawr o'r gwaith yma (trwy deithio neu gomisiynu ar y cyd), a chynnig y lle, y cyfleoedd a'r gwasanaethau fyddai'n helpu artistiaid i ddatblygu a thyfu eu gwaith.

Cyrff fyddai'r rhain a arweinir gan y celfyddydau, ond sydd â'u canolbwynt ar gynulleidfaoedd, gan dynnu pobol tuag at waith o safon uchel a meithrin perthynas rhwng yr artist a'r gynulleidfa. Byddent yn gwneud yn fawr o'u cryfderau a'u harbenigedd, ond byddent hefyd yn cyd-drefnu datblygu 'clystyrau' partner, yn ddaearyddol neu yn ôl celfyddyd eu harbenigedd.

Fe ddichon fod yma achosion o ran ein defnydd o gyllid y Loteri.

Bu'n rhaid i ni symud ymlaen gan ddisgwyl bod yr adeiladau celfyddydol hynny sydd wrth graidd ein strategaeth yn y dyfodol yn tebol at eu diben ac yn ecolegol gadarn - neu y gallen nhw fod – ac yn gyfleusterau graenus o'r radd flaenaf. Er gwaethaf pwysau'r dirwasgiad, ddylem ni ddim gwingo rhag yr angen i gynnal stoc o adeiladau o safon uchel. Ond o gofio'r pwysau ar gronfeydd y Loteri fydd hyn ddim yn hawdd ei gyflawni. Bydd llwyddiant yn dibynnu fwyfwy ar barodrwydd amrywiaeth o bartneriaid cyllido i uno o gwmpas un strategaeth gyfalaf. Bydd cam nesaf ein strategaeth cyfalaf y Loteri – a gyhoeddwn y flwyddyn nesaf - yn chwilio sut y gwnawn hyn.

## Tynnu'r llun ehangach

Hwyrach bod ar bob tref eisiau ei grŵp celfyddydau neu ei ganolfan celfyddydau noddedig, ond does dim dichon ymorol bod y celfyddydau ar gael yn gyfartal i bawb. Wedi dweud hynny, pa mor agos gallwn ni fynd?

Mae ein cynllun *Noson Allan* yn llwyddiannus dros ben yn dod â rhaglennu celfyddydau o safon uchel i'r cymunedau lleiaf. Mae'n gweithio. Felly rhown fwy o adnoddau i'r rhan bwysig yma o'n strategaeth datblygu cynulleidfaoedd.

Fodd bynnag, mae yna un canlyniad amlwg yn deillio o ganolbwyntio mwy o gyllid ar nifer fach o gyrff rhanbarthol bwysig – efallai y bydd gofyn i'r rhai sy'n llai ffodus gwtogi eu rhaglenni, neu gau hyd yn oed. Mae cau unrhyw gorff yn y celfyddydau yn drueni. Felly sut gallwn ni osgoi sefyllfa sy'n gweld y goleuadau'n diffodd ledled Cymru?

Bydd llawer yn dibynnu ar ymestyn pob punt o fuddsoddi cyhoeddus cyn belled fyw fyd bosib.

Mae arnom eisiau annog cyrff yn y celfyddydau i fwrw golwg fwy dychmygus ar sut y gallan nhw weithio'n fwy clòs gyda'i gilydd. I'n tyb ni, cwmni celfyddydau llwyddiannus y dyfodol fydd un sy'n heini, yn rhwydweithiol ac yn fuandroed; yn cydweithredu ar gyfleusterau ar y cyd, comisiynu ar y cyd a chynilo drwy osod gwaith gweinyddol ar gytundeb allanol lle mae gwneud hynny'n gost effeithiol. Does yna ddim un eli at bob clwy o ran beth sy'n gweithio neu'n methu, ond mae'n bwysig i gyrff yn y celfyddydau chwilio drostyn nhw'u hunain beth allai fod yn bosib.

## Mwy na brics a morter…

Nid mewn adeilad y mae pob math o weithgaredd yn y celfyddydau'n digwydd.

Hyd yn hyn mae ein polisïau'n dueddol o ffafrio'r cwmni neu'r oedfan sydd â'i gartref mewn adeilad. Ac eto weithiau mathau eraill o gelfyddyd – celfyddyd gyhoeddus, safle-benodol, carnifal, theatr stryd, syrcas, gwyliau – ydi lle mae celfyddyd yn cael ei hailddyfeisio a'i bywiogi.

Yn aml mae'r celfyddydau hyn yn dwyn ynghyd gerddoriaeth, dylunio, crefftau a choreograffi. Maen nhw'n fan profi i'r dim i dorri tir newydd ac arbrofi. Maen nhw'n gallu bod yn sbardun dod â chymunedau at ei gilydd, yn gallu mawrygu hunaniaeth ac amrywiaeth. Ond mae'n debyg y byddai llawer o'r cyrff hyn yn teimlo eu bod yn cael eu gwthio i ymylon ein maes diddordeb. Mae arnom eisiau i hyn newid.

Mae diwylliant bywiog, cyffrous ac egnïol yn ffynnu ar bethau newydd, sbloets, pethau annisgwyl – gwaith sy'n estyn allan ac yn cydio mewn cynulleidfa newydd a gwahanol. Cyn belled bod y gwaith yma'n gymhellol ac o safon uchel fe gaiff ein cefnogaeth. Does gennym ddim hierarchaeth celfyddydau ar fynd – dim ond beth sy'n dda sy'n ein diddori ni.

Rydym yn arbennig o awyddus i fwrw golwg o'r newydd ar Wyliau.

I raddau helaeth rhywbeth y mae Gorllewin Ewrop wedi'i fathu ydi cysyniad yr Ŵyl, er ei bod yn tarddu o draddodiadau defod a dathlu diwylliannol Groeg yr henfyd. Roedd yr ŵyl fwyaf honno o blith y gwyliau mawr - Olympiad Groeg - yn rhoi'r un faint o bwys ar orchest ddiwylliannol ag ar fedr ym maes chwaraeon. Dyna pam mae hi'n deg i ni roi'r pwys iawn i'r Olympiad Diwylliannol yng Nghymru a'r dreftadaeth y bydd yn ei gadael ar ei ôl.

Yn aml mae gwyliau'n bethau tan gamp i ddenu pobol na fyddai fel arall yn meddwl am fynd i ddigwyddiad yn y celfyddydau. Maen nhw'n gallu cymell cymryd rhan, ymdeimlad o falchdra cymuned a bro. Maen nhw'n gallu bod yn gyfryngau pwysig adfywio economaidd. Fodd bynnag, mae yna enghreifftiau lawer o wyliau sydd bellach wedi colli'u newydd-deb creadigol - wedi'u lluchio at ei gilydd rywsut rywsut fel rhuthr archfarchnad, eu digwyddiadau 'parod' o'r unfath nac yn wahanol nac yn wreiddiol. Dydi gŵyl yn ddim byd nac ynddi nac ohoni'i hun. Mae'n bod oherwydd beth mae'n ei gynnwys. Ac ansawdd a dychymyg y cynnwys hwnnw sy'n diffinio hunaniaeth a gwerth gŵyl.

Ein gweledigaeth ni ydi calendr diwylliannol yng Nghymru sy'n frith o ddigwyddiadau Gŵyl arbennig, cyffrous, gyda goreuon y byd. Rhywbeth i wneud i'r galon guro'n gyflymach, rhywbeth i edrych ymlaen ato.

Disgwyliwn i Wyliau ein synnu a'n cyfareddu, cynnig rhaglennu'r tu hwnt i'r cyffredin a'r pob dydd. Efallai mai golygwedd ryngwladol sydd eisiau - heb os y dychymyg i chwilio meysydd yn y celfyddydau sydd y tu allan i derfynau rhaglennu 'arferol'.

Beth bynnag y bo'u canolbwynt, byddai gan y Gwyliau gymeriad. Byddent yn llefydd i gyfarfod, ffeirio syniadau newydd, deffro'r annisgwyl, dathlu. Byddent yn faes profi: lle i chwilio gwaith a repertoire newydd; blodeuo syfrdanol y cydweithio egnïol creadigol a'r annisgwyl all ddod i'r fei - a phwy ŵyr beth all ddeillio o bair o'r 'gymysgfa' iawn o unigolion creadigol.

## "Dwi'n gwario, felly dwi'n bod..."

O'n bodd neu'n hanfodd, rydym fwyfwy ym mhalf technoleg. Mae'n llai, yn rhatach, yn fwy grymus, hollbresennol a phersonol. Mae hefyd yn mynd yn fwy rhyngweithiol ac mae'n newid y ffordd mae pobol yn 'defnyddio' y celfyddydau. 'Personoli' ydi'r bri-air newydd.

Diolch i'r we rydym yn credu y cawn beth bynnag fynnwn ni, pryd bynnag y'i mynnwn, yn dod i law wrth y drws. Cawn siopa am wyth o'r gloch yr hwyr neu am dri o'r gloch y bore.

Amser dechrau penodol, awditoriwm treuliedig, bwyd a diod diflas, dim llefydd parcio? Rydych chi'n cystadlu â lefel addasu a phersonoli ar y we na does dim curo arni. Felly mae'n hanfodol i'r celfyddydau gynnig y math o gyfleustra, hyblygrwydd a dewis sydd gan bobol bellach mewn agweddau eraill ar eu bywydau.

Os nad ymatebwn ni i batrymau newydd ymddygiad cwsmeriaid cawn ein gadael ar ôl. Yn wyneb dirywiad economaidd ydi'n fwy tebygol y cadwn ni danysgrifiad Sky ynteu mynd i'r theatr?

A diwylliant ar alwad trwy YouTube ac iTunes pryd fynnoch chi (ac am ddim neu am geiniog a dimai am a welwn ni) mae eisiau gofyn beth y bydd yn ei olygu yn y dyfodol pan ofynnwn i rywun dalu £30 am docyn cyngerdd a hwnnw wedi arfer â lawrlwytho ar y rhyngrwyd am ddim.

Y newydd da ydi bod grym y profiad byw'n dal i fod wrth wraidd llawer o'r celfyddydau. Yn ein byd a'i gyfoeth o dechnoleg bydd y profiad byw ar y cyd yn bwysicach fyth. Ond mae disgwyliadau'n uchel a phobol yn chwilio fwyfwy am 'brofiad cyflawn' sy'n gwneud eu tro am y theatr neu'r oriel yn neilltuol, yn foddhaol ac yn arbennig. Dim byd ond y gorau.

## Achub y blaen...

I geisio mynd bob yn gam â thechnoleg rydym wedi lansio gwefannau, gosod gwasanaethau codi tocynnau ar lein, rhoi e-farchnata ar lein yn lle llyfrynnau tanysgrifio caled trwy'r post. Ac fel y gwyliwn ein plant a dysgu ganddyn nhw, bellach gwelwn nad bwrdd hysbysebion digidol mo'r rhyngrwyd ond man cymdeithasol. Rydym wedi symud ymlaen o gyfathrebu dim ond trwy ein gwefan ein hunain i gofleidio MySpace, Facebook a Twitter. Ac eto does dim byd a wnawn ni i'w weld yn llawn ddigon, yn llawn ddigon cyflym a neu â llawn ddigon o adnoddau.

Fwyfwy mae technoleg yn ei gwneud yn bosib creu celfyddyd ac ymhél â hi mewn ffyrdd newydd - diwylliant 'trwy gyfrwng sgrin fflat'. Mae hyn yn cyflwyno cyfleoedd a heriau ill dau i artistiaid a chyrff yn y celfyddydau. Mae disgwyliadau cenhedlaeth sydd wedi dod i oed mewn byd digidol yn bur wahanol i ddisgwyliadau'r cenedlaethau o'i blaen. Mae technoleg rad yn cynnig ffyrdd newydd i ffeirio barn, syniadau a chynnwys yn sydyn yn ogystal â modelau busnes newydd.

Rydym yn awyddus i chwilio sut y gall technoleg newydd weithio'n well i'r celfyddydau yng Nghymru.

Er enghraifft, os <u>bydd</u> i oedfannau celfyddydau yng Nghymru ffurfio rhwydwaith brifwythiennol, efallai y bydd arnom eisiau meddwl yn fwy dychmygus am sut y gellid cysylltu'r rhwydwaith hwnnw'n well. Mae un cynnig sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn chwilio'r syniad o ryng-gysylltedd digidol i annog rhaglennu rhithwir ar y cyd.

Mae dangosiadau sgrin byw wedi'u trosglwyddo o'r National Theatre yn Llundain a'r Met yn Efrog Newydd eisoes wedi rhoi cip i ni ar beth sy'n bosib. Ond beth am Ganolfan Mileniwm Cymru, neu faint fynnir o oedfannau eraill yng Nghymru?

Mae yma rywbeth y tâl hi i ni graffu arno. Gallwn weld cyfle go iawn i greu cymuned ddigidol rithwir allai gychwyn, cefnogi a rhannu gwaith trwy hyd a lled Cymru. Cymru'n Un a yrrir yn artistig, wedi'i chysylltu'n ddigidol.

## Y diwydiannau creadigol...

Mae'r celfyddydau'n bwysig yn eu rhinwedd eu hunain. Ond gwyddom hefyd fod y diwydiannau creadigol a diwylliannol yn un o beiriannau hanfodol economi Cymru. Maen nhw'n cyfrannu'n uniongyrchol o ran swyddi a chynhyrchu cyfoeth trwy greu, lledaenu a gwerthu nwyddau a gwasanaethau.

Diwydiant a chynhyrchu oedd busnes y cwmnïau byd-eang oedd yn ben yn y gorffennol. Bydd corfforaethau allweddol y dyfodol fwyfwy ym meysydd cyfathrebu, gwybodaeth, adloniant, gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae'r rhain yn galw am ddychymyg creadigol o'r mwyaf a gweledigaeth yr entrepreneur - priodoleddau y mae'r celfyddydau yn yr union le i'w darparu.

Mae rhai rhannau o'r sector diwylliannol yn atyniadau twristiaid o bwys, yn chwyddo'r galw am drafnidiaeth, llety, arlwyo a busnesau eraill yn ymwneud â thwristiaeth. Maen nhw hefyd yn helpu i roi Cymru ar lwyfan y byd.

O gofio maint a chymhlethdod y diwydiannau creadigol, dydi hi ddim bob amser yn amlwg ym mha fan y mae ymyriad y sector cyhoeddus yn briodol. Yn sicr ddylem ni ddim gwario arian cyhoeddus lle nad oes mo'i angen, lle mae'r farchnad yn gallu cynnal gweithgaredd heb beryglu ei onestrwydd artistig.

Felly yn hytrach rydym yn ymddiddori mewn chwilio tri maes gweithgaredd: gweithleoedd creadigol i artistiaid unigol a busnesau yn eu dyddiau cynnar; annog y rheini sy'n cynhyrchu cynnwys gwreiddiol i elwa'n fasnachol ar y mwyaf ar eu buddsoddiad; a gweithio gyda phartneriaid i roi mecanweithiau priodol yn eu lle i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth fusnes.

Ond does wiw i ni golli golwg ar safle'r celfyddydau yn yr economi fusnes ehangach.

Go brin fod hon yn awr ffafriol ond rydym yn ymroddedig i wneud popeth y gallwn i chwyddo'r arian sydd ar gael i'r celfyddydau yng Nghymru. Ar ben y cyllid cyhoeddus a gawn drwy Lywodraeth Cynulliad Cymru a chan y Loteri Genedlaethol, buom yn llwyddiannus yn ymorol am gyllid o amrywiaeth o ffynonellau eraill. Awn ymlaen â'r gwaith yma. A chan dynnu ar arbenigedd a gwybodaeth ein cydweithwyr yn Celfyddydau a Busnes Cymru, mae gofyn i mi ymorol bod y celfyddydau mor 'gydnaws â busnes' ag y gallan nhw fod – meithrin y cysylltiadau, datblygu'r partneriaethau, tyfu economi'r celfyddydau.

## Cenedl fach, celfyddyd fawr...

Un o ffactorau hanfodol mynd â Chymru yn ei blaen i'r dyfodol, yn gymdeithas fywiog a chreadigol, ydi proffil heb olion ystrydebau'r gorffennol. Nid yn unig y mae'r celfyddydau'n gwneud Cymru'n ddeniadol ac yn gyfoes i ni'n hunain, maen nhw'n ein gwneud ni'n arbennig ac yn rhywbeth i'w chwennych yn llygaid eraill. Celfyddyd a gynhyrchir yng Nghymru ac ohoni hi - ac a gyflawnir ar y safon uchaf oll – ydi'r ffordd orau o hyrwyddo diwylliant y Gymru sydd ohoni. Dyna ein hatyniad dihafal i brynwyr mewn marchnad fyd-eang sy'n buddsoddi yn eurymylon y dyfodol nid trysorau teuluol llychlyd.

Mae rhagoriaeth a chreadigedd celfyddydau Cymru yn cyfrannu'n rymus tuag at feithrin ein perthynas ddiwylliannol â gweddill y byd. Mae llawer o gyrff celfyddydau Cymru o bwys rhyngwladol yn eu rhinwedd eu hunain ac mae mwy i'w wneud i ddatblygu eu rôl yn llysgenhadon diwylliannol dros Gymru.

Gwlad ddatganoledig ydi Cymru oddi mewn i'r Deyrnas Unedig ac Ewrop ehangach. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi meithrin sawl perthynas â gwledydd eraill ac mae'n dal i wneud hynny. Mae'r cydrannau diwylliannol ac artistig o'r rhain yn bwysig.

Trwy ddatblygu'r bartneriaeth rhyngom ni, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r Cyngor Prydeinig byddwn yn gwella ein cefnogaeth i artistiaid a chyrff yn y celfyddydau sydd am weithio'n rhyngwladol. Byddwn hefyd yn denu gweithgaredd i'r wlad sy'n ehangu gwybodaeth artistiaid a chynulleidfaoedd y celfyddydau. Mae gofyn i Gymru fod yn "agored ar gyfer busnes", yn bwrw iddi yn y farchnad cynadleddau, ffeiriau masnach a phennaf ddigwyddiadau sy'n dwyn elw mwyfwy. Mae gofyn i ni fod yn cystadlu'n rhyngwladol, yn ennill y digwyddiadau hyn i Gymru.

## Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru ydi prif noddwr ariannol Cyngor y Celfyddydau. Amcan Llywodraeth Cynulliad Cymru ydi adeiladu Cymru well, ac i'r uchelgais hwnnw gwmpasu'r celfyddydau. Ein gwaith ni ydi cyflawni'r amcan hwnnw.

Fel elusen yn y celfyddydau mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i wneud ein gorau glas i ddatblygu a hyrwyddo'r celfyddydau. Does wiw i ni fod yn swil. Mae disgwyl i ni ymgyrchu dros y cyllid y credwn y mae'r celfyddydau angen i dyfu a ffynnu. Byddwn yn benderfynol ac yn braff yn cyflwyno ein hachos.

Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad mae gennym rwymedigaeth benodol i weithio'n gadarnhaol ac yn effeithiol i droi polisi cyhoeddus yn weithredu ymarferol. Fel corff 'o hyd braich', rydym yn ymroddedig i gynnal perthynas egnïol, atebol a llawn parch â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ac mae'n iawn i'n cyfrifoldebau penderfynu gyd-fynd yn braf ag angen y Llywodraeth i weld yn glir sut y mae arni eisiau gweld buddsoddi arian trethdalwyr. Credwn fod y Llywodraeth, y cyhoedd a'r celfyddydau ar eu hennill o'r arbenigedd, y dilysrwydd a'r rhyddid mynegiant artistig y mae corff 'o hyd braich' yn gallu'u cynnig.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am i Gymru fod yn deg, yn llewyrchus ac yn hyderus, yn gwella ansawdd bywyd i'w phobol yn holl gymunedau'r wlad. Dylai'r Celfyddydau fod yn ddrych o hyn. Bydd celfyddyd yn dywyswr, yn feirniad, yn ddarbwyllwr, yn arweinydd – gan mai dyna beth mae'r celfyddydau ar eu gorau yn gallu ac yn gorfod ei wneud.

Mae'r celfyddydau yn cyffwrdd â phob agwedd ar agenda diwylliannol, economaidd a chymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddwn yn gweithio'n glòs gyda'r Adran Dreftadaeth i ymorol bod y manteision y mae'r celfyddydau'n gallu'u cynnig wedi'u gweu ar draws holl feysydd perthnasol gweithgaredd Llywodraeth y Cynulliad. Mae ein strategaeth Celfyddydau ac Iechyd a luniwyd ar y cyd wedi dangos yn union beth y gallwn ei gyflawni ac rydym yn meithrin perthynas newydd â thwristiaeth ddiwylliannol ac addysg ill dwy. Estynnwn y cyrchddull yma i gynnwys y diwydiannau creadigol, adfywio a newid hinsawdd.

# Llywodraeth leol

Dydi'r celfyddydau ddim yn gweithio ar eu pennau'u hunain, na ninnau chwaith.

Partneriaeth rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a llywodraeth leol ydi sylfaen y celfyddydau yng Nghymru. Rhyngom, mae gennym botensial cyffwrdd bywydau pawb.

Mae cynghorau'n dod â'u gwybodaeth leol, eu hamrywiaeth eang o gyfrifoldebau, eu datblygiad diwylliannol a'u cynrychiolaeth ddemocrataidd. Mae Cyngor y Celfyddydau yn dod â'i arbenigedd yn y celfyddydau a golygwedd genedlaethol a rhyngwladol ar achosion lleol.

Bellach cydnabyddir yn eang werth cynhenid y celfyddydau. Ond mae'r celfyddydau hefyd yn gallu taro golau ar amrywiaeth eang o strategaethau sydd wrth graidd bywyd cyhoeddus a rhoi bywyd iddyn nhw. O'r celfyddydau ac iechyd i dwristiaeth ddiwylliannol, celfyddyd gyhoeddus i adfywio canol trefi, mae'r celfyddydau yn dod ag ystyr, dilysrwydd a llawenydd i'n bywydau pob dydd. Gyda'n gilydd rydym yn creu ac yn cynnal swyddi, yn cyfoethogi gwasanaethau addysg, yn dod â phobol at ei gilydd, yn gwella ansawdd ein bywydau.

Un o ganolbwyntiau pwysig ein gwaith yn y dyfodol fydd trafod ag awdurdodau lleol gynlluniau Llywodraeth y Cynulliad i gyflwyno Dyletswydd Ddiwylliannol. Credwn y bydd hyn yn gaffaeliad i roi lle amlycach i weithgareddau diwylliannol a rôl llywodraeth leol yn eu hyrwyddo a'u cefnogi. Mae yna gyfleoedd hefyd i annog mwy o gydweithredu rhwng awdurdodau lleol, a rhwng awdurdodau lleol a ni'n hunain.

Fel cyrff cyhoeddus, rydym i gyd o dan bwysau ariannol aruthrol. Dydi hyn ddim yn mynd i newid yn y dyfodol agos – os rhywbeth, bydd yn waeth byth. Felly mae'n bwysicach byth i ni weithio gyda'n gilydd i dyfu lle gallwn ni ac amddiffyn lle bo rhaid i ni.

Fydd blaenoriaethau awdurdodau lleol a Chyngor y Celfyddydau ddim bob amser yn cyd-fynd i'r dim. Does reswm yn y byd pam y dylen nhw. Ond mae gennym ddigon o fwriad ar y cyd i'n dwyn yn nes at ein gilydd nag a fu ein harfer efallai yn y gorffennol. Ein bwriad, felly, ydi chwilio gyda'n cydweithwyr mewn llywodraeth leol a oes yna ffyrdd newydd o weithio a gaiff well gwerth am arian o'n perthynas strategol.

## Byw ein proffes...

Mae hi'n bwysig iawn i gyrff yn y celfyddydau sy'n cael cyllid cyhoeddus berfformio'n dda. Mae hyn yn wir yn ein hachos ninnau. Run fath â phob busnes llwyddiannus mae gofyn i ni ddatblygu ein strategaeth fusnes yng nghyd-destun beth sy'n digwydd yn y byd o'n cwmpas.

Mae gennym strategaeth glir ac effeithiol i gyflenwi ein gwaith. Daliwn i fonitro, pwyso a mesur ac adrodd ar ein perfformiad. Ymorolwn fod ein penderfyniadau ar sail ymchwil ofalus, gywir. Byddwn yn agored ac yn dryloyw yn egluro sut rydym yn rheoli ein materion, a sut rydym yn adrodd ar ein cyflawniadau.

Chwiliwn am arbedion cost weithredu trwy symleiddio prosesau, defnyddio'r gorau y gall technoleg ei gynnig i ni, a thrwy greu amgylchfyd lle byddwn bob amser yn adolygu cost effeithiolrwydd beth wnawn ni. Rhaid i ni ofyn yn ddi-baid "beth mwy y gallwn ni'i wneud er mwyn chwyddo i'r eithaf faint o gyllid sy'n mynd yn uniongyrchol i'r celfyddydau?"

Rydym yn chwilio am berthynas newydd, aeddfed ag artistiaid a chyrff yn y celfyddydau – perthynas wedi'i seilio ar ffydd a pharch y naill i'r llall. Disgwyliwn i'r cyrff allweddol rydym yn eu cyllido chwarae rôl arweinyddion o ran torri tir newydd artistig a meithrin cynulleidfaoedd. Disgwyliwn iddyn nhw fod wedi'u rheoli a'u llywodraethu'n dda. I dalu'r pwyth, byddwn ninnau'n fwy croesawgar a gwahodd artistiaid, cyrff yn y celfyddydau ac ymgynghorwyr i weithio'n fwy clòs gyda ni ar ddatblygu polisi a strategaeth. Maen nhw'n gronfa o wybodaeth ac arbenigedd y byddem yn hurt i'w hanwybyddu.

Tyfwn a datblygu ein diwylliant fel corff sydd â'i ganolbwynt ar ddinasyddion, yn gweithio er budd y cyhoedd, ac yn defnyddio'n sylfaen hyder ein rhanddeiliaid ein bod yn gallu dwyn y maen i'r wal. Gwelir cynrychiolaeth budd y cyhoedd yng nghyfansoddiad y Cyngor lle bydd proffil pobol Cymru, hyd y gellir, yn cael ei adlewyrchu gan ei aelodau.

Mae hyn yn golygu, pan fydd y gweinidog yn penodi, ystyried lleoliad, rhywedd, iaith, dosbarth cymdeithasol, ethnigrwydd ac anabledd yn ogystal ag arbenigedd yn y celfyddydau, gweinyddu a llywodraethu. Awch am y celfyddydau fydd yr un peth cyson ym mhenodiad pob aelod. Fodd bynnag, bydd arweinyddiaeth yn y celfyddydau hefyd yn rhan hanfodol o gynrychiolaeth. Ein bwriad fydd cadw llinellau cyfathrebu agored rhwng sector y celfyddydau y mae'r Cyngor yn ei gefnogi a'r cyhoedd y mae'r Cyngor yn eu gwasanaethu.

## Nawr te, dychmygwch eto...

Dychmygwch y Gymru y gallem ei chreu os gwnawn ni hyn oll a mwy gyda'n gilydd.

Cymru lle'r amgyffredwn y Celfyddydau fel ystyr bywyd. Cymru lle mae mecanweithiau'r Wladwriaeth Les - o Iechyd, i Nawdd Cymdeithasol i Addysg - yn cael eu dirnad yn ddim ond moddion gadael i fodau dynol ffynnu a gwneud beth sy'n ein gwneud yn anifeiliaid arbennig o ran ein natur:  creu Celfyddyd.

Dychmygwch Gymru lle mae dinasyddion yn ymgysylltu trwy gelfyddyd, ar sawl lefel ac yn barhaol, â'r achosion moesol a theimladol hynny y mae'r deall a'r reddf yn mynd i'r afael â nhw beunydd.

Dychmygwch Gymru lle mae democratiaeth yn cael ei bywiogi gan gynneddf ei phobol i'w gweld eu hunain a'u pwrpasau, yn unigol ac yn gymdeithasol, yn rhan o gyflenwi a defnyddio celfyddyd ar y cyd.

Dychmygwch Gymru lle mae'r celfyddydau wrth wraidd ein hunaniaeth fel cenedl, yn codi awydd ar bobol rhoi tro amdanom a'n hadnabod ni.

Mae gofyn i ni gael ein gweld a'n hadnabod fel ni'n hunain er mwyn i ni fod yn llwyddiannus yn yr holl ffyrdd y mae byd â'i ganolbwynt ar greadigedd yn galw amdaynyn nhw.

Nid gweledigaeth o gwbl mo gweledigaeth gaeth i uchelgais isel neu ddistadl. O anelu'n uchel, does wybod yn y bydd beth allem ei gyflawni. Balm i'r enaid, yn obeithiol, yn gyffrous a phwy ŵyr - hyd yn oed yn gweddnewid.

Ni fydd dychmygu arno, bid siwr ni fydd modd ei wneud, os na wnawn ni'r lle a'r amser i adael i artistiaid wneud eu gwaith, gyda ni ac erom ni. Oherwydd yn y pen draw, <u>ni</u> ydyn <u>nhw</u>

Cyngor Celfyddydau Cymru

## Y Rhufeiniaid

Y ffyliaid gwirion, oni wyddent hwy
    Fod pen ar bopeth ar y ddaear hon,
Fod pob hen garreg rywdro'n torri'n ddwy,
    Mai byr barhad sydd i bob newydd-sbon?
Hwynt-hwy'r hollwybodusion, meistri'r byd,
    Tybed, mewn difrif calon nad oedd gŵr
Ohonynt, a doethineb yn ei fryd,
    A wyddai nad oedd dim oedd yn fwy siŵr?
Gwybod neu beidio, aethant ati'n ddoeth
    I godi mur a phont a chaer a ffordd,
A chreu dinasoedd â chelfyddyd goeth,
    Yn feddwon ar gywreinrwydd cŷn a gordd,
Heb ildio gronyn nad oes dan y ne'
Ddim byd a bery'n hir ond man a lle.

T.H.Parry-Williams

© Gwasg Gomer